

**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU****LEGISLATION COMMITTEE
REPORT****Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005
(Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) 2006**

Mae'r Gorchymyn yma'n dirymu tri offeryn statudol ac mae'n diwygio rhai eraill o ganlyniad i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf"). Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae paragraff (b) yn y diffiniad o "aelod cyfetholedig" (yn erthygl 1(3)) yn wahanol yn y ddwy iaith. Ystyr y testun Saesneg yw bod y person yn cynrychioli'r awdurdod fel aelod o gydbwyllgor, ac ystyr y testun Cymraeg yw bod y person yn aelod o'r awdurdod ac yn cynrychioli'r awdurdod ar y cydbwyllgor. Mae rhan gychwynol y diffiniad yn awgrymu mai'r fersiwn Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7 (vi)]

Mae'r mewnosodiad sy'n cael ei wneud gan baragraff 2(c) o destun Saesneg Atodlen 2 yn cynnwys iaith ryw-benodol. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mae paragraff 4 o'r Atodlen honno'n cyfeirio at "Rheoliadau Contractau Cyflenwi i'r Cyhoedd 1995". Mae hynny'n awgrymu cyflenwi i aelodau o'r cyhoedd yn hytrach nag i'r sector cyhoeddus. Mae'r teitl cywir wedi'i roi yn y pennawd uwchben y paragraff –"Rheoliadau Contractau Cyflenwi Cyhoeddus 1995". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 6(b) o'r Atodlen honno'n cyfeirio at reoliad 12 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001. Mae'r rheoliad hwnnw'n cyfeirio yn y Saesneg at y "Local Commissioner for Wales" yn hytrach na'r "Local Commissioner in Wales" fel ym mhob rheoliad arall y mae'r paragraff yma'n honni ei fod yn eu diwygio. Oherwydd hyn, does dim modd ei ddiwygio fel rhan o'r diwygiad grwp sy'n cael ei wneud gan baragraff 6(b), ond yn hytrach bydd rhaid cael diwygiad ar wahân ar ei gyfer. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Cymraeg paragraff 10 o'r Atodlen honno'n defnyddio "rhodder" i gyfateb i "substitute", ond mae paragraff 11 yn defnyddio "dylid rhoi". Mae'r un cyntaf yn cyfateb yn well i bwyslais y Saesneg, a dyna a ddylai gael ei ddefnyddio drwy'r Gorchymyn i gyd. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu deipio sydd yma, sydd yn addas i'w cywiro gan Femorandwm Cywiriadau.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

31 Ionawr 2006